

(parhad o'r dudalen flaen)

Am iddo farw ar y bryn,
Cadd f'enaïd bach ei brynu'n llyn* (*'fel hyn')
A'i dynnu o'i gadwynau'n rhydd:
Wel, bellach, dan ei haeddiant Ef,
Fel cysgod rhyw gedrwydden gref,
Gorffwysaf mwy yng ngwres y dydd.

W. W. Pantycelyn

Rhodri

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mrs Dilys Vaughan yr wythnos hon, un a fu'n ffyddlon a gweithgar yng Nghapel Saron ac a wasanaethodd yno fel blaenores am 46 o flynyddoedd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i mab, Arwyn Vaughan (Saron) ac â'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a hoffus. Gweddiwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth amdani. Yn yr un modd, estynnwn ein cydymdeimlad â Sali Roberts (Llansannan) a gweddiill y teulu yn eu profedigaeth o golli Beryl, chwaer Sali. Fe'u cyflwynwn i ofal Duw gan weddio y byddant yn profi nerth a chynhaliath Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at heddiw at sawl un o'n plith. Mae Gruffydd Jones (Llansannan) yn derbyn gofal yn Ysbyty Gobowen yn dilyn ei lawdriniaeth; mae Elena Owen (Llanefydd) hefyd wedi cael llawdriniaeth ond wedi cael dod adref o'r ysbyty erbyn hyn; a chofiw'n hefyd am Llinos Hughes (Cefn Berain) sy'n parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Mae'n dda cael adrodd fod Richard M. Jones (Cefn Berain) wedi dod adref o'r ysbyty, fel ag y mae Tudor Davies (Llanfair) a dreuliodd rai dyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos ddiwethaf. Deallwn hefyd fod Jeff Thomas (Llanfair) wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar – anfonwn ein cofion ato yntau hefyd. Mae eraill o'n plith wedi, neu yn cael amrywiol driniaethau ond heb orfod aros i mewn yn yr ysbyty, ac eraill lle nad yw eu hiechyd cystal ar hyn o bryd. Rydym yn amgylchynu pob un ohonoch yn ein gweddiâu ac yn hyderu y bydd y dyddiau a'r wythnosau nesaf yn rhai lle byddwch yn cryfhau ac yn profi gofal a chariad Duw yn gwarchod drosoch.

Llongyfarchiadau a pob dymuniad da i Tudur ac Ann Morris (Llansannan) fydd yn dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol yn fuan ym mis Awst, ac i Eirwen Roberts (Hiraethog) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ganol mis Awst.

Sylwer

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 4^{ydd} (unrhyw gyhoeddiadau i'w hanfon erbyn Awst 31^{ain}, os gwelwch yn dda). **Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair.**

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 17 Gorffennaf 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Gan mai dyma'r rhifyn olaf o Lais Bro Aled tan ddechrau fis Medi, dyma gyfle gwych i mi ddymuno'n dda i bawb ohonoch dros yr haf, yn arbennig felly'r rhai fydd yn brysur yn ymweld â'r Eisteddfod a sioeau ymhell ac agos! Ac wrth edrych ymlaen at y Sioe yn Llanelwedd yr wythnos nesaf, mae'r rhagolygon o wres mawr eisoes wedi arwain at rybuddion bod angen diogelu pobl ac anifeiliaid rhag gorboethi. Gan ein bod mor anghyfarwydd â'r fath dymheredd, bydd rhaid cymryd camau ychwanegol i'n hoeri a'n gwarchod rhag yr haul!

Hyd yn oed wrth i ni fwynhau'r heulwen ar lan Llyn Brenig ddydd Sul diwethaf, diddorol oedd y safbwyntiau gwahanol ymhlith y picnicwyr: rhai wrth eu boddau â'r tywydd braf, ag eraill yn cilio i'r cysgod! Gwnaeth yr holl drafod am haul, gwres a chysgod i mi feddwl mor aml y mae'r Salmau yn defnyddio'r delweddu hyn wrth ddisgrifio'r Arglwydd fel cysgod i'w bobl. Dywed dechrau Salm 91:

'Y mae'r sawl sy'n byw yn lloches y Goruchaf, ac yn aros yng nghysgod yr Hollalluog, yn dweud wrth yr Arglwydd, "Fy noddfa a'm caer, fy Nuw, yr un yr ymddiriedaf ynddo."

Ac wrth gwrs, mae Salm gyfarwydd 121:5 yn datgan 'Yr Arglwydd yw dy geidwad, yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw'.

Yn ystod diwrnod crasboeth, bydd cysgod yn rhoi rhyddhad hyfryd i'r sawl sy'n ei geisio, ac yn galluogi rhywun i ddiodeff rhywbeth fyddai'n annioddefol fel arall. Ac mewn gwres tanbaid, cysgod (a dŵr) sy'n ein galluogi i orffwys a chael ein hatgyfnerthu. Mewn ffordd gyffelyb, mae'r Arglwydd Dduw yn addo rhoi cymorth i'w bobl i wynebu pob math o dreialon wrth iddo'u harwain a'u hadnewyddu trwy'r Ysbryd. Rydym yn clywed yn aml am y gorffwys bendigedig sydd ar gael i'r rhai sy'n dod mewn ffydd at Iesu, ond mae'r Beibl hefyd yn ein hatgoffa bod arfogaeth gan Dduw i'n galluogi i sefyll yn gadarn a dal ein tir pan fydd pethau'n ddrwg. (Effesiaid 6:13 Beibl.net)

Wrth i ni gysgodi o dan goeden neu do, y dail neu'r llechi sy'n diodeff tanbeidrwydd llethol yr haul yn ein lle. A phan feddyliwn am y croeshoeliad, sylweddolwn fod Iesu o'i wirfodd wedi diodeff 'un waith am byth dros bechodau', er mwyn i bawb sy'n cysgodi ynddo brofi hyfrydwch tragwyddol wrth ddod at Dduw. (1 Pedr 3:18)

(parhad ar y dudalen gefn)

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Gorffennaf 17^{eg}

- Oedfa yn Llanfair am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- Oedfa Thema (Henllan a Groes) yn Henllan am 9:30.
- Cyfarfod Gweddi (Llanefydd a Chefn Berain) yn Llanefydd am 10:00 gydag Ysgol Sul y plant yn cydreddeg.
- Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog am 6:00 yr hwyr gyda Rhys yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Dydd Sul, Gorffennaf 24^{ain}

- Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00 o dan arweiniad Mr Gerallt Jones.
- Oedfa Gymun yn Llanefydd am 9:30 ac yn Henllan am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- Ysgol Sul yn Henllan am 10:00.
- Oedfa i'r Daith (Saron a Nantglyn) yn Nantglyn am 2:00 y prynhawn o dan arweiniad Mr Gerallt Jones.
- 'Gwreiddiau' – Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras Iago (07778 511672).

Dydd Mawrth, Gorffennaf 26^{ain}

- Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn cyfarfod yn Llansannan am 7:00 yr hwyr i drafod gwaith yr Henaduriaeth.

Dydd Sul, Gorffennaf 31^{ain}

- Cyfarfod Gweddi yn Llansannan a Llanfair am 10:00 ac yng Nghefn Meiriadog am 10:30.
- Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac yn Groes am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gwyndaf Jones.
- Cyfarfod yn Saron am 10:00 yng nghwmni Mrs Cheryl Williams fydd yn rhoi ychydig o gefndir Apêl Arbennig Cymorth Cristnogol 2022 – Hadau Gobaith.

Dydd Gwener, Awst 5^{ed}

- Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd am 10:00. Croeso i bawb.

Dydd Sul, Awst 7^{fed}

- Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones.
- Oedfa yn Llanefydd am 9:30 o dan arweiniad Mr Dewi Williams.

Dydd Mawrth, Awst 9^{fed}

- Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan am 1:30 y pwnn. Edrychir ymlaen i gael cwmni Myfyr Griffiths fydd yn dangos lluniau adar. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Awst 14^{eg}

- Oedfa yn Henllan am 9:30 ac yng Nghefn Berain am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts.
- Trefniant lleol fydd gan Llansannan a Chefn Meiriadog – manylion i'w cadarnhau.

Dydd Sul, Awst 21^{ain}

- Oedfa yn Llanefydd am 9:30 o dan arweiniad Mr Dafydd Timothy.
- Oedfa yn Llansannan – manylion i'w cadarnhau.
- Trefniant lleol fydd yng Nghefn Meiriadog – manylion i'w cadarnhau.

Dydd Sul, Awst 28^{ain}

- Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yng Nghefn Meiriadog am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gareth Edwards.
- Oedfa yng Nghefn Berain am 9:30 ac yn Henllan am 11:00 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.

Dydd Gwener, Medi 2^{il}

- Paned a Sgwrs yng Nghapel Llanefydd am 10:00. Croeso i bawb.

Dydd Sul, Medi 4^{ydd}

- Oedfa yn Llanfair am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00 o dan arweiniad Rhodri.
- Oedfa yn Groes am 9:30 ac yng Nghefn Berain am 11:00 o dan arweiniad Dr Owain Edwards.
- Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00 o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.